

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Talylychau yn Ysgol Gynradd Talylychau nos Fawrth, 7 Tachwedd 2017, am 7.30pm.

Roedd y canlynol yn bresennol: Y Cynghorwyr Marged Bowen (Cadeirydd), John Williams, Nigel Lovatt, Eifion Roberts, Janine Roberts, Sarah Walters, a Jane Morgan (Clerc). Roedd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Roger Anthony, yn bresennol rhwng 7.30pm a 7.45pm. Ymddiheuriadau: Pauline George, Rhys Williams a'r Cynghorydd Sir Joseph Davies.

Datganiad o Fuddiant. Eifion Roberts ynghylch Cais Cynllunio E/36368. Plot yng Nghilwr Uchaf.

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

Materion sy'n codi.

Datganiad o gyfrif, fel yr oedd ar 27 Hydref 2017, £9,201.81. Gwiriwyd gan Janine Roberts.

Toiledau Cludadwy. Nid oedd penderfyniad wedi dod i law hyd hynny gan Ysgol Gynradd Talylychau. Cytunwyd i roi gwybod i'r Pennaeth, Mr Cooper, y byddai'r Cyngor yn cael gwared ar y toiledau cludadwy, oni bai fod penderfyniad yn dod i law erbyn 5 Rhagfyr 2017.

Toiledau Cyhoeddus. Dywedodd Stephen Morgan, o Adran Eiddo Cyngor Sir Caerfyrddin, dros y ffôn wrth y Clerc mai Cytundeb Les Safonol oedd hwn. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i weithredu ar sail y cyngor a gafwyd gan Un Llais Cymru a chael cyfreithiwr i fwrw golwg dros y Les. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu â'r cyfreithwyr canlynol am ddyfynbrisiau ar y gwaith o edrych ar y Les lle byddai'r Cyngor Cymuned yn cymryd meddiant o'r Toiledau Cyhoeddus oddi wrth Gyngor Sir Caerfyrddin, a hynny ar Les o 99 mlynedd. Llys Cennen, Carreg Law, Hugh Williams Son & Co, Agri Advisor. Cafwyd manylion ar ffurflen gan gwmni yswiriant Zurich, er mwyn cael amcan o gost yr yswiriant ar gyfer y Toiledau Cyhoeddus. Y Cae Chwarae a'r Cae Cymunedol.

Cynhaliwyd cyfarfod safle ar 19 Hydref 2017 ar y Cae Cymunedol. Roedd y Cynghorwyr Marged Bowen (Cadeirydd), Janine Roberts a Jane Morgan (Clerc) yn bresennol. Roedd y canlynol i'w trafod: Symud twmpath, llwybrau, gwrychoedd, y gât wrth y fynedfa, offer chwarae a'r beic a oedd wedi'i adael ar ôl.

Cytunodd Janine Roberts, yn garedig, y byddai'n edrych ar gau'r gât wrth fynedfa'r cae.

Cytunwyd y byddai'r materion eraill yn cael eu trafod unwaith eto ym mis Mawrth.

Roedd neges e-bost wedi dod i law gan Gareth Howells, Cyngor Sir Caerfyrddin, yn atodi neges e-bost gan yr Adran Eiddo yn arddangos hawl tramwy Cyngor Sir Caerfyrddin.

Cafwyd hefyd gopi o'r Ddogfen Trawsgludiad ar gyfer yr eiddo. Dywedai fod ei gydweithwyr yn y maes cynnal a chadw adeiladau yn dweud mai cyfrifoldeb yr ysgol fyddai cyllido atgyweiriadau i ffensys mewn sefydliadau addysg. Fodd bynnag, dywedai y byddai'n casglu'r costau atgyweirio ynghyd, ac yn ystyried a allai rhai o'r costau hynny ddod o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) ar gyfer cynnal a chadw'r tir. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu â Mr Howells i ymholi am yr hyn y mae'n ei olygu wrth y "ni" yn y frawddeg hon, "Dengys, mewn porffor, yr hawliau tramwy a roddwyd i ni ar gyfer y cae chwarae", ac a yw'n cyfeirio at Gyngor Sir Caerfyrddin yn unig, ac, os felly, sut y mae'r cyhoedd i fod i gyrraedd y cae.

Diffibrilwyr.

Yn dilyn gohebiaeth a oedd wedi dod i law gan Richard Evans, o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ynghylch y lleoliad i osod y diffibriliwr, roedd cyfarfod safle wedi cael ei drefnu yng Nghwmdu ar 19 Hydref 2017. Roedd y canlynol yn bresennol: Marged Bowen (Cadeirydd), Janine Roberts, Nigel Lovatt a Jane Morgan (Clerc). Cytunwyd i roi gwybod i

Richard Evans fod gosod y diffibriliwr ar bostyn ffens wrth fynedfa'r llwybr ger y nant yn dderbyniol gan y Cyngor Cymuned. Y Clerc i gysylltu ag Anthony, o elusen Cariad, i roi gwybod y gall y diffibrilwyr gael eu gosod cyn gynted ag y byddai hynny'n gyfleus. Roedd neges e-bost wedi dod i law gan Anthony yn rhoi gwybod bod trefniadau wedi cael eu gwneud i osod yr unedau ddydd Llun, 20 Tachwedd 2017. Roedd yr elusen wedi gofyn a fyddai'r Cyngor yn dymuno awgrymu amserau cyfleus i ddarparu hyfforddiant am ddim ar gyfer y cyhoedd yn ehangach. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i awgrymu cynnal un sesiwn hyfforddi yn Ysgol Gynradd Talylychau ddydd Sadwrn, 25 Tachwedd 2017, am 11am, ac i gynnal sesiwn arall gyda'r nos yn Festri Cwmdu ar unrhyw ddyddiad a fyddai'n gyfleus. Y Clerc i drefnu'r hyfforddiant cyn gynted â phosibl. Unwaith y byddai'r dyddiadau wedi'u cadarnhau, y Clerc i osod hysbysiadau ar ddau hysbysfwrdd y Cyngor, Swyddfa'r Post, tafarn Cwmdu, hysbysfwrdd yr Eglwys, tu allan i'r ysgol, ac ar wefan Talylychau. Asedau i'w trafod eto yn y cyfarfod nesaf.

Mynwent yr Eglwys.

Cytunwyd i gael yr arwydd "*No rubbish here please*" gan arwyddion RELM am bris o £21 a TAW.

Cytunodd John Williams ac Eifion Roberts, yn garedig, i roi'r arwydd yn ei le.

Byddai'r mater o folltio'r fainc fetel wrth y wal yn cael ei drafod yn ystod y cyfarfod nesaf. Gohebiaeth.

Cytunwyd i dalu'r anfonebau canlynol:

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, £30.20.

Swyddfa Archwilio Cymru, am archwilio cyfrifon 2016-17, £208.50.

RELM, am arwyddion yn y fynwent, £25.20.

Y Lleng Brydeinig Frenhinol, am dorch o babiâu a rhodd, £30. Byddai Marged Bowen yn gosod y dorch yn ystod y Gwasanaeth Coffa yn Eglwys San Mihangel ddydd Sul, 12 Tachwedd 2017.

Cafodd yr ohebiaeth ganlynol ei dosbarthu a'i thrafod:

Gwasanaeth Ymgynghori Cymunedol Lleol Zurich.

Cais am Gymorth Ariannol gan Fenter Bro Dinefwr. I'w drafod ar ddiwedd y flwyddyn.

Cais am gymorth gan Marie Curie. I'w drafod ar ddiwedd y flwyddyn.

Llythyr gan Gyngor Sir Caerfyrddin ynghylch cymorth ar gyfer cynllun Apêl Teganau a Hamperi Anrhegion Nadolig.

Cylchlythyr Cynghorau Tref a Chymuned: Y Llysgennad a'r cyswllt rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin a Chynghorau Tref a Chymuned yn Sir Gaerfyrddin, y Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths.

Cylchlythyr Cynghorau Tref a Chymuned: Fforwm Derbyn: Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin yn awyddus i benodi dau Gynrychiolwr Cymunedol i fod yn rhan o Fforwm Derbyn Sir Gaerfyrddin.

Llythyr gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

Llythyr gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Cwblhawyd y manylion wedi'u diweddarau.

Enwebu Is-gynrychiolydd i'r Awdurdod.

Neges e-bost gan Un Llais Cymru. Ym mis Mawrth eleni, ymrwymodd y Prif Weinidog i "gamu i'r adwy a sicrhau na fydd yn rhaid talu costau ar gyfer claddu plant yng nghymunedau Cymru bellach." Roedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried y ffyrdd gorau i gyflawni hyn, gan ddod i'r casgliad y dylai fwrw ati mewn partneriaeth, gan gydweithio

â'r llywodraeth leol i sicrhau cytundeb "Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth", sy'n gosod cytundeb ar y cyd i beidio â chodi ffioedd mewn perthynas â chladdu neu amlosgi plant, ac y dylid defnyddio'r diffiniad cyffredinol o blentyn, sef hyd at 18 oed. Cytunwyd i beidio â chodi unrhyw ffioedd. Cwblhawyd yr arolwg.

Grave Concerns. Cafwyd taflen yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau cynnal a chadw beddau. Roedd y daflen hefyd yn sôn bod y cwmni yn torri glaswellt mewn mynwentydd, ac y byddai ganddo ddiddordeb i gyflwyno tendr am dorri'r glaswellt ym mynwent Eglwys San Mihangel. Cytunwyd i roi gwybod i'r cwmni pan fyddai galw am dendrau. Byddai copi o'i gwasanaethau yn cael ei gadw mewn ffeil.

*Clerks & Councils Direct.*

Cynllunio.

Gadawodd Eifion Roberts yr ystafell.

Cais. E/36368. Plot yng Nghilwr Uchaf, Talylychau. Diwygiad ansylweddol (gosod teils Llechi Cambrian ar do annedd). Cais Cynllunio E/35868.

Ni wnaed unrhyw sylwadau.

Daeth Eifion Roberts yn ei ôl i'r ystafell.

Cytunwyd i roi gwybod am y canlynol i Adran Priffyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin:

1. Dŵr cyson ar y ffordd ger White Square, a allai fod yn beryglus iawn mewn tywydd rhewllyd.
2. Y ffordd wedi ysigo, a thyllau yn y ffordd ger mynedfa Parc-y-Rhyd, a rhwng Malacoff a Rhosygelli.
3. Coed rhododendron yn tyfu allan i'r ffordd rhwng Molefre Lodge a Fferm Cilyllyn Fawr.

Nid oedd unrhyw fusnes arall a daeth y cyfarfod i ben tua 10.15pm. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 5 Rhagfyr 2017, am 7.30pm.